Sant Columba: 521-597

Gweddïau yn helpu Cormac

Dyfalbarhad / ymddiriedaeth / cyfeillgarwch

Yn y gwasanaeth yn yr ysgol fyddwch chi'n gweddïo? Fel arfer fe fyddwch chi'n cau eich llygaid a rhoi eich dwylo efo'i gilydd. Yna fe fyddwch chi'n siarad efo Duw. Mae'r stori hon yn sôn am bobl a fu'n gweddïo dros ffrind.

Flynyddoedd yn ôl ar ynys Iona ar arfordir yr Alban roedd Columba yn byw. Ef oedd Abad y fynachlog. Un diwrnod fe aeth yr Abad a'r mynaich eraill i lawr at lan y môr. Roedd Cormac, un o'r mynaich, yn ffarwelio â'r mynaich eraill. Roedd wedi penderfynu mynd i ran arall o'r byd i sôn am Iesu Grist.

"Mae Cormac yn mynd yn y cwch bach ar draws y môr. Felly gawn ni weddïo drosto?" meddai Columba. A dyma'r mynaich yn penlinio ar lan y môr a gweddïo dros Cormac. Camodd Cormac i'r cwch bach a dechrau rhwyfo ar draws y môr. Ffarweliodd â'i ffrindiau.

Y noson honno bu'r mynaich yn gweddïo drosto. "Cofiwch," meddai Columba, "mae'n rhaid i chi weddïo pan fyddwch chi'n gweithio hefyd. Felly, pan oedd rhai o'r mynaich yn ysgrifennu rhannau o'r Beibl roedden nhw'n aros i gofio am Cormac. Roedd mynaich eraill yn gweithio yn y caeau. "Mae hi'n amser i ni gofio am Cormac," meddai un ohonyn nhw. Penliniodd pob un ohonyn nhw i weddïo. Wrth baratoi bwyd yn y gegin, roedd y mynaich eraill yn aros i weddïo dros Cormac. Wrth i'r wythnosau fynd heibio, roedd y mynaich yn dechrau anghofio am Cormac. Roedd pob un ohonyn nhw'n brysur iawn. Roedd yna gymaint o bethau i'w gwneud cyn y gaeaf. Pan ddaeth y gaeaf roedd pob man yn oer a gwlyb. Roedd tonnau'r môr yn cael eu lluchio ar y creigiau.

"Mae'n braf iawn arnom ni yma," meddai un o'r mynaich un noson stormus.

"Mae hi'n glyd iawn a chynnes yn y fynachlog," meddai un arall.

Doedd neb yn meddwl am Cormac.

Dechreuodd cloch yr eglwys ganu. Ond doedd hi ddim yn amser i fynd i weddïo i'r eglwys. Cododd pob un o'r mynaich a

cherdded yn ddistaw tua'r eglwys. Er syndod iddyn nhw, fe welson nhw Columba yn canu'r gloch.

Ar ôl cyrraedd yr eglwys a phawb wedi tawelu, fe ddywedodd Columba, "Mae hi'n storm enbyd heno. Ydych chi wedi meddwl am bobl sydd allan ar noson fel hyn? Ydych chi wedi meddwl am Cormac? Efallai ei fod allan ar y môr heno. Cofiwch, fe wnaethon ni addo gweddïo trosto."

Roedd pob un o'r mynaich yn teimlo'n euog iawn. Roedden nhw wedi addo gweddïo ond roedden nhw wedi anghofio. Fesul un, dyma nhw'n mynd ar eu gliniau a gweddïo dros Cormac. Ymhen rhai dyddiau, roedd un o'r mynaich yn sefyll ar graig yn edrych dros y môr. Yn y pellter gwelai rywbeth tywyll. Cwch bach efallai. Ie, cwch bach oedd yno. Wrth i'r cwch nesáu at y lan fe welai mai cwch Cormac oedd hwn. Rhedodd i ddweud wrth y lleill yn y fynachlog. Fe ddaethon nhw i gyd i lawr i'r traeth i groesawu Cormac.

"Wyddoch chi, ddiwrnodau yn ôl mi roedd yna storm enbyd, a minnau'n ofni am fy mywyd. Ac yna fe gofiais eich bod yn gweddïo drosta i. Yn wir, yng nghanol y storm mi roeddwn i'n teimlo'n gryf ac yn ddewr. Fe wnaeth eich gweddïau fy helpu yn y storm. Edrychodd y mynaich ar ei gilydd. Mor falch oedden nhw bod Columba wedi eu galw i'r eglwys i weddïo drosto.

"...daliwch ati i weddïo."
Rhufeiniaid 12:12

Ein Tad,
yr hwn sydd yn y nefoedd,
dysga fi i weddïo.
Amen.

Fyddwch chi'n gweddïo?
Cyn pryd bwyd? Ar ddiwedd y dydd yn yr ysgol?
Cyn mynd i'r gwely?
Pa mor bwysig ydi gweddïo?

Sant Columba: 521–597